Camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru: ar ôl 3 blynedd

Rhif 3 Briff polisi ac ymarfer

Credwch mewn plant

Barnardo's Cymru

Gan Dr Sam Clutton a Jan Coles

Rhif 3

Briff polisi ac ymarfer

Camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru: ar ôl 3 blynedd

Cyflwyniad

Mae'r briff polisi ac ymarfer hwn yn rhoi darlun cyffredinol o'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn nodi ac yn ymateb i'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant drwy gamfanteisio rhywiol, ers cyhoeddi'n hymchwil cyntaf ar y mater hwn yng nghyd-destun Cymru yn 2005[1]. Gan ddefnyddio ymchwil a gynhaliwyd ar draws tri awdurdod lleol, mae'r briff hwn yn darparu tystiolaeth newydd ar nifer yr achosion a natur y camfanteisio rhywiol ar blant yng Nghymru. Bwriad y briff yw dwyn sylw at ffactorau bod-yn-agored-i-niwed a risgiau allweddol a dangos tystiolaeth o arferion gorau ym maes diogelu – gan gynnwys cyflwyniad i bolisi a gweithdrefnau newydd.

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu gorfodi plant a phobl ifanc, neu ddylanwadu arnynt, i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath ar gam-drin rhywiol lle mae rhyw fath o daliad yn cael ei gyfnewid a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Mae natur agored i niwed y person ifanc a'r broses hudo a ddefnyddir gan y rhai sy'n cyflawni'r troseddau yn eu gwneud yn ddi-rym i adnabod natur gamfanteisiol perthnasoedd ac i roi caniatâd gwybodus.

Cyd-destun a chefndir

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf arbennig o guddiedig o gam-drin. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gasglwyd yng nghyswllt y mater hwn wedi dod o fannau eraill yn y DU a, than yn ddiweddar, ychydig o wybodaeth a oedd ar gael am nifer yr achosion a natur camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru. Yn 2005 cynhaliodd Barnardo's Cymru astudiaeth gwmpasu ar ran Grŵp Cynghori Cymru ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant[2]. Yn yr astudiaeth gwmpasu nodwyd 184 achos o blant a phobl ifanc ar draws Cymru y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt neu lle roedd pryderon bod rhywrai'n camfanteisio'n rhywiol arnynt. Dangosodd yr astudiaeth hefyd ddiffyg ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc ymysg gweithwyr proffesiynol a diffyg yn y broses o ganfod risg, sy'n awgrymu bod y ffigur o 184 yn llai na'r nifer gwirioneddol o achosion. Awgrymai'r astudiaeth hefyd fod anghysondebau yn ymateb awdurdodau lleol i'r broblem.

Ymatebodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr astudiaeth gwmpasu a chomisiynodd adolygiad o gynnwys a gweithrediad protocolau lleol ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar draws Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad yn 2006-07 a darparodd dystiolaeth i gadarnhau canfyddiadau'r astudiaeth gwmpasu gynharach[3]. Canfu'r adolygiad ddiffyg ymwybyddiaeth cyffredinol ar draws asiantaethau ynghylch cynnwys protocolau lleol a gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer ymateb i broblem camfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd ymwybyddiaeth o ddangosyddion risg camfanteisio'n rhywiol ar blant, a'r problemau cysylltiedig, wedi'i chyfyngu fwy neu lai i grwpiau bach o ymarferwyr neu swyddogion strategol a oedd â gwybodaeth weithio dda am y mater ac yn llawn ymroddiad i fynd i'r afael â'r mater hwn. Ychydig o enghreifftiau o waith rhyng-asiantaeth cyson a welwyd a nodwyd yr angen am hyfforddiant rhyng-asiantaeth gan y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd. Roedd amrywiaeth eang yng nghynnwys protocolau lleol ar gyfer diogelu plant y camfanteisir yn rhywiol arnynt, roedd rhai yn cynnwys gwybodaeth anghywir a doedd dim diffiniad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n cael ei rannu gan bawb. Roedd saith protocol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer erlyn plant a phobl ifanc, gyda dim ond un ohonynt yn disgrifio'r broses o erlyn plant fel y dewis olaf un.

Mae presenoldeb amryw o ffactorau bod-yn-agored-i-niwed a risg ym mywydau plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg sylweddol o gamfanteisio rhywiol[4], a'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin drwy gamfanteisio rhywiol, yn golygu bod galwadau mawr o ran adnoddau ar nifer o asiantaethau, yn aml mewn ymateb i sefyllfaoedd argyfwng aml a symptomatig. Mae sicrhau bod asiantaethau sy'n dal cyswllt â phlant a phobl ifanc agored i niwed yn canfod y plant hyn yn gynnar ac yn atal y broses drwy gamau diogelu sy'n briodol i lefel y risg yn hollbwysig i leihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu cam-drin wrth i rywrai gamfanteisio'n rhywiol arnynt.

Mae arfarniad sylweddol dwy flynedd o Wasanaethau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Barnardo's ar draws y DU yn darparu tystiolaeth o'r ffordd orau i fynd ati i leihau'r risgiau i blant a phobl ifanc y camfanteisir yn rhywiol arnynt a'r ffordd orau o'u cefnogi i ddianc rhag y math hwn o gamdriniaeth[5]. Mae'r briff hwn yn rhoi darlun cyffredinol o'r dystiolaeth sydd ar gael yng nghyswllt pennu ac ymateb i'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant drwy gamfanteisio rhywiol.

Canfyddiadau'r ymchwil

Roedd gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr a oedd yn ymateb i'r astudiaeth gwmpasu ac i'r adolygiad yn gweld pennu plant a phobl ifanc y mae perygl i bobl gamfanteisio'n rhywiol arnynt yn broblem. Mewn ymateb i hyn, bu Barnardo's Cymru yn llwyddiannus yn treialu Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol (SERAF) yng Nghasnewydd yn 2006[6]. Gwnaethpwyd rhagor o ymchwil mewn dau awdurdod lleol arall yn 2007 gan ddefnyddio SERAF. Ar draws y tri awdurdod, mae'r sampl yn cynnwys 1487 o achosion yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 10 a 22 oed a oedd dan law'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yng Nghymru.

Mae gogwydd yn y sampl tuag at blant a phobl ifanc sydd mewn perygl oherwydd ei fod wedi'i dynnu o faich achosion y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn felly yn fwy tebygol na'u cymheiriaid o fod yn agored i'r ffactorau bod-yn-agored-i-niwed a'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chamfanteisio Rhywiol. Felly, mae'r cyfraddau niferoedd yma yn gysylltiedig â phlant a phobl ifanc sydd eisoes mewn cysylltiad â gwasanaethau sy'n darparu ar gyfer plant mewn angen a/neu mewn perygl ac nid yn gysylltiedig â'r poblogaethau plant lleol yn gyffredinol. Mae'n peri pryder mawr bod cynifer â naw y cant o blant a phobl ifanc agored i niwed y mae'r gwasanaethau statudol yn gwybod amdanynt ar draws y tri awdurdod lleol mewn perygl sylweddol o ddioddef camfanteisio rhywiol.

Ffigur 1 Plant a phobl ifanc yn ôl categori risg Sampl o 3 awdurdod lleol yng Nghymru 2006-2007



DS: Gweler fframwaith SERAF ar ddiwedd y briff hwn am esboniad o bob categori risg.

Ffigur 2: Cyfanswm y sampl yn ôl categori risg a rhyw

	Benyw	Gwryw
Ddim mewn perygl	38%	62%
Risg fechan	44%	56%
Risg ganolig	44%	55%
Risg sylweddol	64%	36%
Y sampl cyfan	**42%**	**58%**

- Roedd mwy o fechgyn a dynion ifanc yn y sampl cyfan na merched (58%>42%). Ond roedd plant a phobl ifanc y nodwyd bod 'risg sylweddol' y byddai rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt yn fwy tebygol o fod yn ferched (64%>36%).
- Mae mwyafrif yr achosion y nodwyd bod risg 'ganolig' neu 'sylweddol' y byddai rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt yn cyfeirio at bobl ifanc rhwng 14 a 17 oed. I ferched a menywod ifanc yr oed 'brig' ar gyfer risg yw 15 oed. Ar gyfer bechgyn a dynion ifanc roedd yr oed brig yn hŷn ond efallai mai'r rheswm am hyn yw bod camfanteisio'n rhywiol ar fechgyn wedi'i guddio'n arbennig o dda.
- O'r sampl cyfan, roedd 95 y cant o'r plant a phobl ifanc yn cael eu disgrifio fel Gwyn Cymreig neu Gwyn Prydeinig. Nodwyd bod cyfanswm o 68 o blant a phobl ifanc yn perthyn i'r grŵp pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Nodwyd bod deunaw o'r achosion hyn yn y categori risg ac 11 o'r rheini yn y categori 'risg sylweddol' o gael rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt.
- O'r sampl llawn, cofnodwyd anabledd yng nghyswllt 412 achos yn y sampl a nodwyd bod 90 y cant o'r achosion hynny yn y categori 'ddim mewn perygl' o gael rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt. Nodwyd bod 40 achos lle cofnodwyd anabledd mewn perygl o gael rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt ac ymhob un o'r achosion hyn ond un nodwyd anabledd dysgu. Yn yr achosion lle cofnodwyd anabledd, nodwyd bod 11 yn y categori 'risg sylweddol' o gael rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt.

Dangosyddion risg a ffactorau bod-yn-agored-i-niwed Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Roedd y plant a'r bobl ifanc yn y sampl i gyd yn hysbys i'r gwasanaethau statudol ac, o'r herwydd, byddem yn disgwyl gweld lefel uchel o gefndiroedd teuluol a phrofiadau plentyndod anodd.

Nodwyd materion fel cam–drin plant, hanes teuluol o gam–drin yn y cartref, hanes teuluol o gamddefnyddio sylweddau a theuluoedd yn chwalu ar draws yr is-samplau categori risg. Fodd bynnag, wrth i lefel y risg gynyddu, cynyddai nifer y ffactorau hyn hefyd mewn perthynas â'r rhan fwyaf o ddangosyddion.

Mae'r cydberthyniad rhwng profiad o gam-drin fel plentyn a'r risg o gamfanteisio rhywiol wedi cael ei sefydlu'n dda[7]. Gallai camdriniaeth fel plentyn gael ei hystyried yn ffactor bod yn agored i niwed yn yr ystyr bod plant sy'n cael eu cam-drin yn debygol o ddioddef o hunan werth isel sy'n eu gwneud yn agored i gael eu cam-drin gan oedolion camdriniol. Ar ben hynny, mae plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol eisoes wedi bod drwy broses o gael eu paratoi i bwrpas rhyw sy'n sefydlu bod torri ffiniau rhywiol priodol yn rhywbeth 'normal'. Mae eraill wedi dadlau bod camdriniaeth yn gwthio plant i sefyllfaoedd risg uchel fel rhedeg i ffwrdd[8]. Gwyddom fod profiad o berthnasoedd teuluol camdriniol yn gadael plant a phobl ifanc â hunan-barch isel, diffyg ymddiriedaeth mewn oedolion ac anawsterau perthynas, a bod hynny yn ei dro yn eu gadael yn agored i rywrai gamfanteisio'n rhywiol arnynt[9]. Mae gwasanaethau Barnardo's sy'n gweithio ar draws y DU wedi nodi bod hanes o gam-drin yn ddangosydd risg[10].

Roedd plant a phobl ifanc yn y categori risg 'sylweddol' ddwywaith a mwy yn fwy tebygol o fod wedi profi camdriniaeth emosiynol yn ystod eu plentyndod o'i gymharu â'r sampl cyfan.

Roeddynt dair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi profi camdriniaeth gorfforol a chamdriniaeth rywiol o'i gymharu â'r sampl cyfan.

Nodwyd bod profiad o broblemau rhianta yn nodwedd gyffredin ymysg y bobl ifanc a gynhwyswyd mewn astudiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau camfanteisio rhywiol Barnardo's[11]. Mae effaith negyddol camddefnyddio sylweddau ar y gallu i fagu plant ac ar fywydau plant sy'n byw mewn teuluoedd lle camddefnyddir sylweddau wedi cael ei chofnodi[12]. Mae mwy o berygl i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn teuluoedd lle ceir cam-drin yn y cartref gael eu cam-drin eu hunain ac mae effaith niweidiol bod yn dyst i gam-drin yn y cartref ar blant yn amlwg[13]. Ceir lefel uchel o deuluoedd yn chwalu ar draws y sampl cyfan ac, megis gyda ffactorau eraill, mae hyn i'w gymharu â'r sampl gwreiddiol (h.y. wedi'u tynnu o lwyth achosion y Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae teulu'n chwalu wedi cael ei ddisgrifio yn rhywle arall fel 'ffactor sylfaenol bod yn agored i niwed'[14].

Roedd gan oddeutu chwarter yr achosion yn y sampl cyfan hanes teuluol o gam-drin yn y cartref ac roedd hyn yn codi i ddwy ran o dair o'r achosion yn y sampl risg 'sylweddol'.

Nodwyd hanes teuluol o gamddefnyddio sylweddau yng nghyswllt chwarter y sampl cyfan ond roedd yn berthnasol i dros hanner yr achosion yn y categori risg 'sylweddol'.

Ffigur 3

	Perthnasoedd teuluol yn chwalu
Y sampl 'ddim mewn perygl' (1,029)	277 (27%)
Y sampl 'risg fechan' (211)	172 (82%)
Y sampl 'risg ganolig' (118)	97 (82%)
Y sampl 'risg sylweddol' (129)	121 (94%)
Y sampl 'cyfan' (1,487)	**667 (45%)**

Cofnodwyd perthnasoedd teuluol yn chwalu yng nghyswllt ychydig yn llai na hanner (45 y cant) o'r sampl cyfan ond i'r rhan fwyaf o achosion cafodd ei nodi fel risg 'sylweddol' (94 y cant).

Mae'r hanes a'r ymddygiad teuluol sy'n dod â phlant i gysylltiad â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn aml yn cael effaith negyddol ar les emosiynol[15]. Mae hunan-barch isel a lles emosiynol a meddyliol gwael yn golygu ei bod yn hawdd camfanteisio ar blant a phobl ifanc ac maent hefyd yn deillio o gamfanteisio.

Nodwyd hunan-werth isel yng nghyswllt un rhan o dair o'r sampl cyfan ac fe'i cofnodwyd ar gyfer y rhan fwyaf o achosion (83 y cant) yn y categori risg 'sylweddol'.

Cofnodwyd mynegiant o anobaith (hunan-niweidio, gorddos, anhwylder bwyta, ymddygiad heriol, trais, ymosodedd) yng nghyswllt ychydig yn llai na thraean o'r sampl cyfan o achosion. Cododd hyn i 81 y cant o achosion yn y categori 'risg sylweddol'.

Mae ymddieithrio o addysg, ynysu eu hunain oddi wrth gyfoedion a gorfod wynebu sefyllfaoedd risg yn gwneud plant a phobl ifanc yn fwy agored i rywrai gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Mae plant a phobl ifanc nad ydynt yn bwrw iddi yn yr ysgol, sydd wedi'u hynysu oddi wrth rwydweithiau cymdeithasol positif ac sy'n aros allan yn hwyr yn treulio cyfran helaeth o'u hamser heb fod gerllaw oedolion priodol a rhwydweithiau amddiffynnol. Maent yn wynebu sefyllfaoedd lle gall pobl sy'n dymuno gwneud drwg iddynt neu gamfanteisio arnynt gyrchu atynt. Mae'r berthynas rhwng camfanteisio rhywiol a chamddefnyddio sylweddau yn un cymhleth sy'n gallu cynnwys defnyddio sylweddau fel cyfrwng ymdopi neu fel

ffocws i gyfnewid a rheoli gan yr oedolyn sy'n camfanteisio[16]. Mae'r holl ffactorau a drafodir yma yn gwneud plant a phobl ifanc yn fwy agored i sefyllfaoedd risg lle gallent ymwneud â phobl ifanc eraill sy'n agored i niwed ac y gallent ddod i gysylltiad ag oedolion camdriniol tra byddant efallai dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol.

Dim ond 2 y cant o'r sampl cyfan a nodwyd fel rhai a oedd wedi'u hynysu oddi wrth gyfoedion/teulu ond cafodd ei nodi mewn chwarter o achosion risg 'ganolig' ac mewn ychydig yn llai na hanner (47 y cant) o'r achosion risg 'sylweddol'.

Cafodd aros allan yn hwyr ei gofnodi fel problem ar draws y categorïau risg ac yng nghyswllt chwarter yr achosion yn y sampl cyfan. Yng nghyswllt y categorïau risg, cofnodwyd hwn mewn dros dri chwarter o'r achosion (81 y cant risg ganolig; 88 y cant risg sylweddol).

Roedd camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn cynyddu yng nghyswllt y categori risg, gan effeithio ar draean o'r sampl cyfan a bron y cyfan o'r achosion risg 'sylweddol' (97 y cant).

Ffigur 4

Gwaharddiadau/absenoldebau heb eu hegluro o'r ysgol	
Y sampl 'ddim mewn perygl' (1,029)	12% (127)
Y sampl 'risg fechan' (211)	53% (112)
Y sampl 'risg ganolig' (118)	75% (89)
Y sampl 'risg sylweddol' (129)	89% (115)
Y sampl 'cyfan' (1,487)	**30% (443)**

Roedd nifer y gwaharddiadau/absenoldebau heb eu hegluro o'r ysgol yn codi gyda phob lefel risg, gan godi i 89 y cant o'r achosion risg 'sylweddol'.

Dangosyddion risg uniongyrchol sy'n dynodi camfanteisio rhywiol

Mae rhai mathau o ymddygiad yn awgrymu risg uniongyrchol o gamfanteisio rhywiol neu fod rhywun eisoes yn camfanteisio ar yr unigolyn. Gallai fod esboniadau eraill am rai dangosyddion risg uniongyrchol, ond lle mae nifer o'r dangosyddion risg uniongyrchol hyn yn bresennol, maent yn awgrymu patrwm ymddygiad sy'n gysylltiedig â chamfanteisio rhywiol.

Mae plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll yn arbennig o agored i'r risg o ddioddef camfanteisio rhywiol yn ystod y cyfnodau pan nad ydynt o fewn rhwydweithiau amddiffynnol. Gall cyfnodau o fynd ar goll fod yn ddangosydd risg uniongyrchol sy'n dynodi camfanteisio rhywiol[17]. Canfu ymchwil a gynhaliwyd yn 2006 gan ddefnyddwyr gwasanaethau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant fod pobl ifanc a oedd wedi dioddef camfanteisio rhywiol yn aml yn cael eu symud gan y gorfodwyr a'r camdrinwyr i leoliadau ar wahân i'w preswylfeydd (cael eu masnachu'n fewnol); y profiad mwyaf cyffredin oedd cael eu symud i ddinas, tref neu awdurdod cyfagos lle digwyddodd y camfanteisio rhywiol, gyda'r person ifanc yn cael ei ddychwelyd i'w leoliad gwreiddiol ddiwrnod neu ddau yn ddiweddarach[18]. Awgryma deunydd astudiaethau achos o Gymru hefyd bod plant a phobl ifanc yn ystod y cyfnodau o fynd ar goll yn aml yn cael eu masnachu'n fewnol. Gallai hyn fod i ddinas leol, i awdurdod lleol arall yng Nghymru neu i ddinas neu leoliad yn Lloegr lle cânt eu gwerthu ar gyfer rhyw cyn cael eu dychwelyd i'w man preswyl.

Mae'r rhan fwyaf o gamfanteisio rhywiol ar blant a phobl ifanc yn digwydd 'oddi ar y stryd'[19]. Mae ffonau symudol a'r rhyngrwyd yn caniatáu i oedolion camdriniol drefnu i gam-drin plant mewn llety preifat, ystafelloedd mewn gwestyau a pharlyrau tylino. Mae'r dangosyddion hyn yn awgrymu patrwm ymddygiad y mae cysylltiad cryf rhyngddo â chamfanteisio rhywiol.

Mae presenoldeb 'cariad' hŷn yn batrwm cyffredin pan gamfanteisir yn rhywiol ar ferched a menywod ifanc. Mae'r oedolyn hwn sy'n cam-drin yn camfanteisio ar y ffaith fod y ferch yn agored i niwed drwy broses reoli sy'n dechrau gyda pherthynas sydd, yn ôl pob golwg, yn un gariadus ac sy'n datblygu'n berthynas reolgar, gamdriniol a chamfanteisiol dros gyfnod o amser[20]. Mae tystiolaeth ddiweddar gan ddefnyddwyr gwasanaethau Barnardo's yn dangos llwybr sydd wedi ei ddiffinio'n glir tuag at gamfanteisio rhywiol drwy oedolyn hŷn, gan amlaf er nid bob amser drwy 'gariad' hŷn[21].

Roedd y rhan fwyaf o ddangosyddion uniongyrchol camfanteisio rhywiol gan gynnwys: defnyddio ffôn symudol sy'n peri pryder; llawer o bobl yn galw (oedolion/pobl ifanc hŷn anhysbys); pethau/symiau o arian heb esboniad amdanynt; cyfoedion yn gysylltiedig â chlipio/camfanteisio rhywiol; mynd i mewn i/dod allan o gerbydau sy'n cael eu gyrru gan oedolion anhysbys a mynychu ardaloedd sy'n adnabyddus am waith rhyw; yn cynyddu gyda phob categori risg gyda chynnydd sylweddol yn y dangosyddion hyn ar gyfer achosion risg 'sylweddol'.

Roedd patrymau penodol o ran y rhywiau yng nghyswllt dangosyddion risg uniongyrchol. Nodwyd presenoldeb 'cariad' hŷn neu oedolyn rheolgar mewn perthynas ag 83 y cant o ferched a menywod ifanc yn y categori risg 'sylweddol'. Ond i fechgyn a dynion ifanc yn y categori risg 'sylweddol' roedd y ffigur hwn yn 18 y cant.

Cofnodwyd dwy ran o dair (64 y cant) o fechgyn a dynion ifanc yn y categori risg 'sylweddol' yn 'mynd i mewn i /dod allan o gerbydau sy'n cael eu gyrru gan oedolion anhysbys o'i gymharu ag ychydig o dan yr hanner (46 y cant) o ferched a menywod ifanc yn yr un categori risg.

Ffigur 5

	Cyfnodau o fynd ar goll dros nos neu'n hirach
Y sampl 'ddim mewn perygl' (1,029)	2 (>1%)
Y sampl 'risg fechan' (211)	42 (20%)
Y sampl 'risg ganolig' (118)	81 (69%)
Y sampl 'risg sylweddol' (129)	116 (90%)
Y sampl 'cyfan' (1,487)	**241 (16%)**

'Cyfnodau o fynd ar goll' oedd y dangosydd risg uniongyrchol mwyaf arwyddocaol ar gyfer y ddau ryw.

Trosolwg o ddeddfwriaeth, a chanllawiau polisi ac ymarfer perthnasol

Mae *Safeguarding Children Involved in Prostitution* (2000) (yr Adran Iechyd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru) a'r *National Plan for Safeguarding Children from Commercial Sexual Exploitation* (2001) (yr Adran Iechyd) yn hyrwyddo dull gweithredu rhyngasiantaethol er mwyn:

- cydnabod a dynodi'r broblem o gamfanteisio'n rhywiol ar blant;
- cydnabod fod y plentyn wedi dioddef camdriniaeth;
- diogelu'r plant sy'n gysylltiedig, hyrwyddo'u lles a rhoi'r strategaethau iddynt i 'ymadael' â'r sefyllfa;
- ymchwilio i'r rhai sy'n gorfodi, yn camfanteisio ar, ac yn camdrin plant, a'u herlyn.

Mae *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant* (2004) (Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn pwysleisio y dylid trin plant sy'n gysylltiedig â 'phuteindra' a ffurfiau eraill o gamfanteisio rhywiol fel dioddefwyr camdriniaeth yn bennaf, ac mae angen asesu eu hanghenion yn ofalus. Mae'n debyg y byddant angen gwasanaethau lles ac – mewn sawl achos – eu hamddiffyn o dan Ddeddf Plant 1989.

Mae *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* (2008) (Pwyllgor Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a Llywodraeth Cynulliad Cymru (Adran 4.8) yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer ymateb i achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r gweithdrefnau'n glir bod 'rhaid i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd ac sy'n pryderu bod plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol arno atgyfeirio'r achos gan ddilyn y gweithdrefnau amddiffyn plant yn Rhan 3 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae hyn yn cynnwys unrhyw bryderon lle nad oes prawf bod sail iddynt. Gallai'r fath bryderon gyfrannu at wybodaeth arall y mae rhywun arall wedi'i rhoi a helpu i greu darlun cyflawn sy'n dangos bod y plentyn yn ddioddef niwed'.

Protocol Cymru Gyfan – Diogelu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol (2008) Grwp Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a Llywodraeth Cynulliad Cymru). Datblygwyd y protocol hwn mewn ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad o brotocolau presennol Camfanteisio'n Rhywiol ar blant, adolygiad a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2006). Bwriad y protocol yw cefnogi'r gwaith o ganfod plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol ac i sicrhau y defnyddir ymarfer cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws Cymru wrth ymateb i risg a chamdriniaeth drwy gamfanteisio rhywiol er mwyn diogelu plant a phobl ifanc. Mae'r Protocol yn argymell defnyddio Fframwaith Asesu Risg SERAF (gweler isod).

Coles, J a Clutton, S (2008) SERAF Sexual Exploitation Risk Assessment Framework Resource Pack, Caerdydd: Barnardo's Cymru – mae pob Bwrdd Lleol Diogelu Plant yng Nghymru wedi cael pecyn ac mae rhagor o becynnau ar gael i'w prynu. Cysylltwch â michelle.gough@barnardos.org.uk

Gwasanaeth Seraf

Ym mis Hydref 2006, sefydlodd Barnardo's Cymru y gwasanaeth arbenigol cyntaf yng nghyswllt camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar draws Cymru i:

- ddarparu hyfforddiant arbenigol a chefnogaeth ar gyfer datblygu ymarfer;
- cefnogi arfer gorau ar gyfer canfod plant a phobl ifanc y mae perygl i rywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt, ac ymateb i'r plant a'r bobl ifanc hynny;
- darparu gwaith ataliol gyda phlant a phobl ifanc agored i niwed; a
- darparu gwaith uniongyrchol arbenigol gyda phlant a phobl ifanc y mae risg sylweddol iddynt gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, neu fod hynny'n digwydd iddynt.

Mae Barnardo's wedi bod yn gweithio ym maes camfanteisio'n rhywiol ar blant er 1995. Gellir crynhoi nodweddion craidd ein model ymarfer drwy'r pedwar peth canlynol: Mynediad, Sylw, Allgymorth Pendant ac Eiriolaeth[22]. Awgryma tystiolaeth o ymarfer da y dylid ymyrryd, cefnogi a

gweithredu ar sail anghenion y plentyn neu'r person ifanc, ac y dylid darparu'r rhain gan weithiwr y gall y plentyn ymddiried ynddo/ynddi ar y cyd â rhwydwaith amddiffynnol o asiantaethau priodol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu nawdd o £60,000 i gefnogi trefniant consortiwm rhwng awdurdodau lleol sy'n awyddus i brynu i mewn i'r Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth eisoes yn gweithio gyda sawl awdurdod lleol ar sail prynu-yn-ôl-y-galw ac mae ymwybyddiaeth gynyddol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi arwain at gynnydd mawr yn nifer yr atgyfeiriadau dros y 6 mis diwethaf. Gall ymarferwyr gysylltu â'r Gwasanaeth i ofyn am asesiad risg neu wneud atgyfeiriad ar gyfer gwaith uniongyrchol gyda phlentyn neu berson ifanc. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnig hyfforddiant a gwasanaeth cynghori.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Gwasanaeth Seraf Barnardo's
46 Heol Marlborough
Y Rhath, Caerdydd, CF23 5BX
Ffôn: 029 2049 1743
E-bost: jan.coles@barnardos.org.uk

Camau nesaf: Mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru

Mae cryn gynnydd wedi'i wneud yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf yn gwella ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae hyn wedi cynnwys: llunio Protocol cyson ar gyfer Cymru gyfan ar sail arferion gorau y mae tystiolaeth eu bod yn gweithio a buddsoddi mewn gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc y mae risg iddynt gael eu cam-drin neu sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol. Mae nifer o awdurdodau lleol yn gweithio gyda Barnardo's Cymru i gryfhau polisi ac ymarfer wrth ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn eu hardal ac maent wedi dangos yn amlwg eu hymrwymiad i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae nifer da hefyd wedi derbyn hyfforddiant aml-asiantaeth dros y tair blynedd diwethaf.

Ers ei sefydlu ym mis Hydref 2006, gweithiodd Gwasanaeth Seraf gyda 57 o blant a phobl ifanc rhwng Ebrill 2007 a Mawrth 2008 ac ar hyn o bryd mae ganddo 21 achos yn agored. Ond, mae dal gormod o blant a phobl ifanc mewn perygl o gael rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt ar draws Cymru ac ar hyn o bryd nid yw arfer i ddiogelu pob plentyn a pherson ifanc rhag y math hwn o gamdriniaeth ar waith. Mae problemau gwirioneddol o hyd o ran canfod adnoddau i ddiogelu a chefnogi'r plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl. Mae'r drwgweithredwyr yn dal i gamfanteisio ar freg usrwydd ein plant a phobl ifanc mwyaf difreintiedig ac yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'r math hwn o gamdriniaeth yn cael ei herio.

Y ffordd ymlaen

1. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Dynodi adnoddau i gefnogi gweithrediad effeithiol y Protocol i Gymru Gyfan – Diogelu Plant a Phobl ifanc sydd Mewn Perygl o Ddioddef Camfanteisio Rhywiol gan awdurdodau lleol fel bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a chymryd camau i sicrhau bod y Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yn adolygu'r cynnydd gyda gweithredu'r Protocol newydd yn lleol.
- Cynnig arweiniad a chefnogaeth i awdurdodau lleol ar gyfer datblygu gwaith ataliol drwy leoliadau addysg a chymunedol gyda phlant a phobl ifanc agored i niwed fel rhan o gyflwyno Nod Craidd 3 y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.
- Gweithredu mewn ymateb i Sylwadau Terfynol y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn (sesiwn 49, 2008) y dylai Pleidiau Gwladwriaethol 'ddwysau eu hymdrechion i gasglu data ar faint problem camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant, sy'n hanfodol er mwyn paratoi ymatebion digonol a gorchfygu'r ffenomen hon'. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn monitro nifer y plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, neu sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol yn unol â'r Arweiniad 'Diogelu Plant sy'n Ymwneud â Phuteindra' a gyhoeddwyd yn 2000. Dylid coladu'r data hwn ar lefel genedlaethol.
- Cyhoeddi canllawiau i'r Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant a chysylltu â'r heddlu i bwysleisio pa mor bwysig fydd gweithredu'r 'Protocol Plant sydd ar Goll' yn lleol, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Grŵp Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae cysylltiad clir a phendant rhwng cyfnodau o fynd ar goll (ac yn arbennig mynd ar goll ar sawl achlysur), a'r perygl y camfanteisir yn rhywiol ar blant a chamdriniaeth drwy gamfanteisio rhywiol. Ceir tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu bod plant a phobl ifanc yn ystod y cyfnodau o fynd ar goll yn cael eu masnachu'n fewnol er mwyn i gamdriniaeth drwy gamfanteisio rhywiol ddigwydd.
- Dweud wrth awdurdodau lleol bod defnyddio llety diogel yn ymateb amhriodol ac aneffeithiol i broblem camfanteisio'n rhywiol ar blant.
- Cydweithredu gydag awdurdodau heddlu Cymru er mwyn ceisio cryfhau gweithdrefnau i ymchwilio i'r drwgweithredwyr, eu hatal a'u herlyn, gan ddefnyddio'r pwerau sydd eisoes ar gael iddynt dan sawl darn o ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Troseddau Rhywiol 2003.

- Deisebu Llywodraeth San Steffan i ddileu'r darpariaethau ar gyfer arestio ac erlyn pobl ifanc yr ystyrir eu bod yn 'dychwelyd at buteindra'n gyson ac o'u gwirfodd' dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Nid yw'r ddarpariaeth hon o unrhyw gymorth o gwbl. Mae cadw'r potensial i erlyn plant sy'n profi'r math hwn o gamdriniaeth yn tanseilio'r egwyddor y dylid diogelu plant rhag cael eu cam-drin ac mae'n fodd i barhau'r myth fod pobl ifanc yn gwneud dewisiadau rhydd a gwybodus. Mae cadw'r trosedd hwn yn anwybyddu'r effaith y mae profiadau bywyd cymhleth a phrosesau hudo yn ei chael ar blentyn sy'n galluogi'r gamdriniaeth hon i ddigwydd. Mae ystyried plant yn droseddwyr yn yr amgylchiadau hyn yn gwbl annerbyniol. Dylai unrhyw adnoddau sydd gan yr Heddlu ganolbwyntio ar ddiogelu plant a phobl ifanc ac ymchwilio i droseddwyr a'u herlyn.

2. Dylai awdurdodau lleol:

- Sicrhau bod staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc drwy leoliadau addysg, cymunedol, iechyd a Gwasanaethau Plant yn gwybod am y Protocol i Gymru Gyfan - Diogelu Plant a Phobl Ifanc sydd Mewn Perygl o Ddioddef Camfanteisio Rhywiol a'u bod yn gallu cael gafael ar hyfforddiant i gefnogi gweithredu'r protocol hwnnw. Mae ymwybyddiaeth ymarferwyr yn hanfodol i ganfod risg camfanteisio ar blant ac i amddiffyn plant a phobl ifanc.
- Sicrhau bod staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc agored i niwed drwy leoliadau addysg, cymunedol, iechyd a Gwasanaethau Plant yn gallu cael gafael ar wybodaeth a deunyddiau er mwyn iddynt fod mewn sefyllfa dda i ganfod risg camfanteisio rhywiol.
- Monitro nifer y plant a phobl ifanc yn yr awdurdod sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, neu sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol yn unol â'r Arweiniad 'Diogelu Plant sy'n Ymwneud â Phuteindra' a gyhoeddwyd yn 2000.
- Diogelu pob plentyn a pherson ifanc drwy gynnwys gwybodaeth ddiogelu sylfaenol, dealltwriaeth o berthnasoedd 'iach' ac ymdeimlad o gyfrifoldeb a rheolaeth dros eu cyrff a hwy eu hunain yng nghwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol. Mae adnoddau addysgu ar gael i gefnogi hyn.
- Diogelu ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc agored i niwed drwy waith grŵp neu waith un-i-un er mwyn codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio rhywiol a darparu cyfryngau er mwyn i blant a phobl ifanc allu adnabod sefyllfaoedd peryglus ac i ddiogelu eu hunain yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth dan y Protocol Cymru Gyfan – Diogelu Plant a Phobl Ifanc sydd mewn Perygl o Ddioddef Camfanteisio Rhywiol yn cael ei gynnal yng nghyswllt unrhyw blentyn neu berson ifanc lle mae pryderon am gamfanteisio rhywiol. Dylai'r cyfarfod arwain at gynllun amddiffyn a ddylai gynnwys gwaith uniongyrchol dwys gyda'r plentyn neu'r person ifanc lle bo hynny'n briodol.
- Sicrhau bod gwybodaeth am y drwgweithredwyr, oedolion, cerbydau a mannau anniogel yn cael ei chasglu, ei rhannu a'i throsglwyddo i'r heddlu. Gall y wybodaeth fod yn gyfyngedig yng nghyswllt un plentyn neu berson ifanc ond pan roddir gwybodaeth am nifer o achosion ynghyd, bydd y potensial i darfu ar waith y drwgweithredwyr, a'u herlyn, yn cynyddu.

Gellir cael rhagor o adnoddau a phapurau gwybodaeth ar ffurf electronig ar gais oddi wrth michelle.gough@barnardos.org.uk

Ffôn: 029 2049 1743

Clutton, S a Payne, R (2008) *Sample profile: children and young people at risk of child sexual exploitation across 3 Welsh Authorities* Barnardo's Cymru – Am ddim

Coles, J a Clutton, S (2008) *SERAF Sexual Exploitation Risk Assessment Framework Resource Pack,* Caerdydd: Barnardo's Cymru – (Copi caled – codir tâl am yr eitem hon)

Clutton, S (2008) *Children and Young People who go Missing and Risk of Child Sexual Exploitationv* – Barnardo's Cymru – Am ddim

Clutton, S. a Coles, J. (2008) *Core Aim 3: The best possible health, free from abuse, victimisation and exploitation – Child Sexual Exploitation* – Barnardo's Cymru – Am ddim

Clutton, S. a Coles, J. (2007) *Sexual Exploitation Risk Assessment Framework: A pilot study,* Caerdydd: Barnardo's Cymru – Am ddim

Fframwaith SERAF

Categori risg SERAF	Dangosyddion risg	Disgrifiad	Camau gweithredu cysylltiedig
Categori 1 **Ddim mewn perygl**	Dim dangosyddion risg ond efallai y bydd 1 neu fwy o ffactorau bod-yn-agored-i-niwed yn bresennol	Plentyn neu berson ifanc sydd 'mewn angen' efallai ond nad oes perygl ar hyn o bryd iddo gael ei baratoi ar gyfer camfanteisio rhywiol.	Addysgu i gadw'n ddiogel. Adolygu'r risg pan geir unrhyw newid arwyddocaol yn yr amgylchiadau.
Categori 2 **Risg fechan**	Sawl ffactor bod-yn-agored-i-niwed. Gallai un neu ddau o ddangosyddion risg hefyd fod yn bresennol.	Plentyn neu berson ifanc agored i niwed y gallai fod perygl iddo gael ei baratoi ar gyfer cam-fanteisio rhywiol.	Ystyried cyfarfod aml-asiantaeth i rannu gwybodaeth ac i gytuno ar gynllun i fynd i'r afael â risg a/neu angen. Dylid gwneud gwaith ar ymwybyddiaeth o risg a chadw'n ddiogel gyda'r plentyn/person ifanc hwn. Adolygu'r risg pan geir unrhyw newid arwyddocaol yn yr amgylchiadau.
Categori 3 **Risg ganolig**	Nifer o ddangosyddion risg a bod yn agored i niwed yn bresennol	Plentyn neu berson ifanc a allai gael ei dargedu ar gyfer cam-drin manteisgar drwy gyfnewid rhyw am gyffuriau, llety (aros dros nos) a nwyddau ac ati.	Cynnull cyfarfod aml-asiantaeth dan brotocol ar gyfer plant a phobl ifanc y camfanteisir arnynt yn rhywiol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn effeithiol gyda chydweithwyr o amryw o asiantaethau a chytuno ar gynllun diogelwch. Dylid galw o leiaf un cyfarfod adolygu. Dylid gwneud gwaith gyda'r plentyn/person ifanc hwn ar leihau risg a chadw'n ddiogel.
Categori 4 **Risg sylweddol**	Nifer o ddangosyddion risg a bod yn agored i niwed yn bresennol. Un neu fwy o ddangosyddion risg sylweddol yn debygol hefyd.	Ymddengys bod perygl sylweddol y camfanteisir yn rhywiol ar blentyn neu berson ifanc neu fod hynny'n digwydd yn barod. Mae camfanteisio rhywiol yn debygol o fod yn rhywbeth cyson, yn aml mae'r unigolyn yn ei wadu ac mae gorfodaeth/rheolaeth ymhlyg ynddo.	Cynnull cyfarfod aml-asiantaeth dan brotocol ar gyfer plant a phobl ifanc y camfanteisir arnynt yn rhywiol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn effeithiol gyda chydweithwyr o amryw o asiantaethau a chytuno ar gynllun diogelu, yn cynnwys cyfarfodydd adolygu rheolaidd. Dylai'r cynllun amddiffyn gynnwys gwaith uniongyrchol dwys tymor hir gyda'r plentyn neu'r person ifanc.
Risg ganolig neu **Risg sylweddol**	Fel uchod.	Person ifanc 18 oed neu fwy.	Lle mae person ifanc yn 18 oed neu fwy y camau gweithredu cysylltiedig yng nghyswllt risg Ganolig a Sylweddol: dylid ymdrin â'r camfanteisio rhywiol fel mater mewn perthynas â'r person ifanc hwn drwy'r cynllun Llwybr neu gynllun gwaith arall; cyswllt rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ag Uned Gwarchod y Cyhoedd yr Heddlu i roi sylw i amddiffyn y person ifanc.

Cyfeiriadau

[1] Coles, J. (2005) *Out of sight, out of mind: Child sexual exploitation,* Caerdydd: Barnardo's Cymru

[2] Sefydlwyd y grwp hwn yn 2004 dan gadeiryddiaeth Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ac mae ynddo gynrychiolwyr o bob rhan o'r sectorau statudol a gwirfoddol gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r heddlu.

[3] Clutton, S a Coles, J (2007) – adroddiad heb ei gyhoeddi a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yng Nghynhadledd Byrddau Lleol Diogelu Plant, Mawrth 2007

[4] Clutton, S. a Coles, J (2007) *Sexual Exploitation Risk Assessment Framework: a pilot study,* Caerdydd: Barnardo's Cymru: Scott, S (2001) *Barnardo's Phase Project: a case study evaluation,* Lerpwl: Prifysgol Lerpwl; Cusick, L (2002) 'Youth prostitution: a literature review', *Child Abuse Review:* 11: td 230-251; Chase,E. a Statham, J. (2005) 'Commercial and Sexual Exploitation of Children and Young People in the UK - A Review', *Child Abuse Review:* 14: tt 4-25

[5] Scott, S a Skidmore, P. (2006) *Reducing the risk: Barnardo's support for sexually exploited young people: A two-year evaluation,* Barkingside: Barnardo's

[6] Clutton, S. a Coles, J (2007) Sexual *Exploitation Risk Assessment Framework: a pilot study,* Caerdydd: Barnardo's

[7] Barnardo's (1998), *Whose Daughter Next? Children abused through prostitution,* Barkingside: Barnardo's

[8] Gweler y drafodaeth yn Melrose, M a Barret, D. (2004), *Anchors in Floating Lives: Interventions with young people sexually abused through prostitution,* Dorset: Russell House Publishing

[9] Leheup,R, (1999) *Floating Lives, Hide 'n' Seek Male Youth prostitution Conference,* 1999

[10] Stanway, D (2006) *Preventing the Sexual Exploitation of Boys and Young Men: PRIME,* Bristol: Barnardo's

[11] Gweler 5 uchod.

[12] Y Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Cyffuriau, (2003), *Hidden Harm,* Llundain: Y Swyddfa Gartref

[13] Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2005), *Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan, Dull Rhyngasiantaethol o Weithio,* Caerdydd: LlCC

[14] Creegan, C; Scott,S. a Smith,S. (2005), *The use of secure accommodation and alternative provisions for sexually exploited young people in Scotland,* Barkingside: Barnardo's

[15] Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, (2004) *Child Abuse and neglect: the role of mental health services,* CBS: Adroddiad Cyngor.

[16] Drinkwater, S; Greenwood, H ynghyd â Margaret Melrose, (2004) 'Young People Exploited through Prostitution: A Literature review', yn Melrose, M a Barret, D. (2004), *Anchors in Floating Lives: Interventions with young people sexually abused through prostitution,* td 23-35 Dorset: Russell House Publishing.

[17] Biehal, N a Wade, J (1999), *Children who go missing: research, policy and practice,* Llundain: Yr Adran Iechyd

[18] Scott. S a Skidmore, P. (2006) *Reducing the risk: Barnardo's support for sexually exploited young people; A two year evaluation,* Barkingside: Barnardo's www.barnardos.org.uk/reducingtherisk

[19] Harper, Z a Scott, S (2005) *Meeting the needs of sexually exploited young people in London,* Barkingside: Barnardo's

[20] Gweler 7 uchod, Barnardo's, 1998

[21] Gweler 5 uchod, Scott, S a Skidmore, P. 2006

[22] Scott, S a Skidmore, P. (2006) *Reducing the risk: Barnardo's support for sexually exploited young people: A two-year evaluation,* td48-49, Barkingside: Barnardo's

Credwch mewn plant

Barnardo's Cymru

www.barnardos.org.uk

Barnardo's Cymru

Cymru, Llys Trident,
Ffordd East Moors,
Caerdydd CF24 5TD.
Ffon: 029 2049 3387

Rhifau Elusen Cofrestredig
Barnardo's 216250 a SC037605
10676dos08